| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **11 MAWRTH 2010** |
| TEITL: | **SYSTEM COFNODI ASEDION Y CYNGOR (CYLLID)** |
| PWRPAS: | **DIWEDDARIAD PARTHED SEFYLLFA'R PROSIECT UCHOD** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **WILLIAM E JONES, UWCH REOLWR CYLLID** |

---

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Yng nghyfarfod y Pwyllgor yma ar 28 Medi 2009, yn sgil adroddiad ar Gyfrifon Terfynol y Cyngor 2008/09, adroddwyd fod yr Uned Gyfalaf a Rheolaeth o’r Adran Gyllid yn y broses o weithredu system newydd ar gyfer cofnodi asedau’r Cyngor i bwrpas rheolaeth gyllidol.

## 2. GOFYNION Y ‘SORP’

Mae’r angen am system newydd yn deillio o newidiadau a gofynion newydd Datganiad Ymarfer Argymelledig CIPFA 2007 (y ‘SORP - Statement of Recommended Practice’) sydd yn amlinellu’r angen i baratoi a chyfrifo am asedau mewn dull gwahanol. Mae’r prif newidiadau yn ymwneud a sicrhau fod prisiau hanesyddol (yn ogystal â chyfredol) yn cael eu cadw ar gyfer pob ased - mae hyn wedyn yn cael effaith ar gyfrifiad yr elw/colled wrth waredu eiddo, a hefyd manylion ychwanegol parthed amhariad a gwelliannau.

## 3. DETHOL DATRYSIAD

Nid oedd yr hen system (ar ffurf daenlen Excel) yn addas mwyach i ymdopi gyda’r gofynion newydd, ac roedd yn hanfodol ystyried systemau pwrpasol. Rhoddwyd ystyriaeth i dair sustem bwrpasol, a gwahoddwyd y 3 cyflenwr i gyflwyno eu system i grŵp bach o ddefnyddwyr.

## 4. MEINI PRAWF

Penderfynwyd ar sustem “IPF Asset Manager.net”, sef sustem sydd yn cael ei redeg gan gwmni sydd wedi ei berchen yn gyfan gwbl gan CIPFA (sef, Chartered Institute of Public Finance and Accountancy). Seiliwyd y penderfyniad ar -

- Addasrwydd a’r gallu i gyflawni’r gofynion perthnasol;
- Perthynas i CIPFA a’r holl gysylltiadau sector gyhoeddus draddodiadol, ac felly'r sefyllfa unigryw i allu defnyddio ymchwil ac arweiniad CIPFA i sicrhau fod y meddalwedd yn glynu at anghenion ariannol, a'r gallu i ddiweddaru yn y dyfodol;
- Hyblygrwydd i’r dyfodol pe bai’r Gwasanaeth Eiddo yn awyddus i ymuno gyda’r sustem (modiwlau Eiddo pwrpasol ynghlwm megis Condition Survey Module, Asbestos Audit Module, Disability Access Module, Asset Management Plan Module ayb);
- Pris.

## 5. ANAWSTERAU WRTH GAU CYFRIFON 2008/09

Cafwyd hyfforddiant cychwynnol gan y cwmni, gyda’r bwriad i gychwyn ar y gwaith o drosglwyddo data o’r sustem bresennol i’r sustem newydd yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol 2008/09. Yn anffodus cafwyd trafferthion wrth i’r cwmni geisio mapio’r data rhwng y ddwy sustem wnaeth arwain at oediad yn yr amserlen wreiddiol. Yn dilyn o hyn, roedd rhaid cwblhau’r ymarferiad cau cyfrifon am 2008/09 hefo’r hen sustem.

## 6. DIWEDDARIAD

Yn dilyn y broses cau cyfrifon 2008/09 gyda phenodiad newydd mewn swydd berthnasol i gynorthwyo hefo’r gwaith, llwyddwyd i symud ymlaen yn sylweddol hefo’r broses, sydd nawr yn tynnu at derfyn.

## 7. ARCHWILIAD ANNIBYNNOL

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwirio’r sustem newydd yma cyn i’r broses Cau Cyfrifon 2009/10 gychwyn.

## 8. CASGLIAD

Er yn gyffredinol tydi’r broses trosglwyddo ddim wedi bod mor esmwyth a obeithiwyd yn wreiddiol, ac rydym wedi bod yn siomedig hefo rhai agweddau o’r system newydd, bwriedir i’r Cofrestr Asedion (Cyllid) newydd fod yn weithredol ar gyfer proses cau cyfrifon 2009/10.